# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion (SC(3)-13-08)

**Dyddiad: 18 Mehefin 2008**
**Amser: 9:00 - 11:00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3**

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

Mike German (Cadeirydd), Dwyrain De Cymru
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lesley Griffiths, Wrecsam
Alun Ffred Jones, Arfon
Darren Millar, Gorllewin Clwyd
Brynle Williams, Gogledd Cymru
Leanne Wood, Canol De Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc
Joanne Clinton, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Peter Woodall, Pennaeth Cyfathrebu y Consortiwm Bagiau Plastig a'r Gymdeithas Pecynnu a Ffilm
Basil Tucker, Aelod o'r Consortiwm Bagiau Plastig a Rheolwr Gyfarwyddwr Cardinal Packaging Ltd, Glynebwy
James Tucker, Aelod o'r Consortiwm Bagiau Plastig a Chyfarwyddwr Cardinal Packaging Ltd, Glynebwy

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mick Bates a Karen Sinclair. Roedd Mike German yn bresennol yn y cyfarfod i ddirprwyo ar ran Mick Bates.

### Eitem 2: Trafod deiseb P-03-063, yn galw am wahardd bagiau plastig

### Papur: SC(3)-13-08 (p1)

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Peter Woodall, Basil Tucker a James Tucker o'r Consortiwm Bagiau Plastig i'r cyfarfod. Amlinellodd y tystion y prif bwyntiau yn eu papur. Bu'r Aelodau'n holi'r tystion.

### Eitem 3: Ymchwiliad i leihau allyriadau carbon yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth ar ddiwydiant a chyrff cyhoeddus

### Papur: SC(3)-13-08 (p2)

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Ieuan Wyn Jones AC, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth i'r cyfarfod, a'i swyddogion, Claire Bennett a Tom Bourne. Amlinellodd y Gweinidog y prif bwyntiau yn ei bapur. Bu'r Aelodau'n holi'r Gweinidog.

3.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ysgrifenedig am y dulliau dyrannu o fewn Cynllun Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd yng Nghymru ac am weithredu'r Ddeddf Arbed Ynni Cartref fel modd o leihau allyriadau carbon.

3.3 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Clerc ymchwilio i ffyrdd y gellid cynnwys mwy o waith craffu ar weithgareddau Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â lleihau allyriadau carbon yn y sector cyhoeddus ac mewn llywodraeth leol.